AMGUEDDFA CYMRU

# Amser Golch

**Rydyn ni'n edrychymlaenat eich gweld yn ein sesiwn Amser Golch rhithwir yn fuan. Er mwyn i'ch disgyblion gael y gorau o'r sesiwn, dyma rai syniadau ar gyfer trafodaeth a gweithgareddau i'w gwneud ymlaen llaw.**

## Trafodaeth dosbarth :

Meddyliwch am yr holl bethau gwahanol sydd angen eu golchi:  e.e. dillad, gwallt, dwylo, llestri, anifeiliaid anwes, ceir ayyb

Pam ydyn ni'n eu golchi nhw? Sut maen nhw'n edrych / teimlo pan mae nhw'n lân / budr? Cyfle i drafod pwysigrwydd golchi dwylo.

Sut ydyn ni'n golchi gwahanol bethau? Ydyn ni'n defnyddio offer arbennig? O ble mae'r dŵr yn dod?

Meddyliwch am y gwahanol fathau o sebon a ddefnyddiwn ar gyfer y tasgau hyn (beth am gael esiamplau i ddangos yn y dosbarth? e.e. powdwr, hylif, bariau solet o sebon) A yw ambell sebon dim ond yn addas ar gyfer rhai tasgau golchi? Sut mae'r sebonau'n edrych ac yn teimlo? Sut maen nhw'n arogli? Ydyn nhw'n creu swigod?

AMGUEDDFA CYMRU

# Amser Golch

## Gweithgareddau estynedig:

Gall y disgyblion arbrofi gyda gwahanol sebonau i weld a ydyn nhw'n creu swigod, a ydyn nhw'n toddi mewn dŵr ayyb.


Gall y disgyblion roi cynnig ar 'greu' sebon yn y dosbarth drwy ratio sebon ac yna ychwanegu blodau sych (fel lafant neu betalau rhosod) a dŵr rhosod (gwnaiff dŵr plaen y tro hefyd!)

## Gwaith cartref:

Sut mae dillad yn cael eu golchi yn eich tŷ chi? Efallai cewch chi roi help llaw efo'r golch? Adrodd yn ôl i'r dosbarth. Sut wnaethoch chi helpu? Oedd yna unrhyw gamau i'w cofio?

'Cyfweliad' gyda pherthynas hŷn neu gymydog. Ydyn nhw'n cofio golchi dillad mewn ffordd wahanol i heddiw?

## Ar ôl eich sesiwn Amser Golch...




Defnyddiwch yr e-lyfr Amser Golchi yn y dosbarth i ddarganfod mwy am olchi yn y gorffennol.

https://amgueddfa.cymru/addysg/gweithgaredd/325/eLyfr-Amser-Golchi/

Gwnewch ddoli peg



https://amgueddfa.cymru/teganau_traddodiadol/doli_peg/